Rhagolwg trethi Cymreig – diweddariad Mehefin 2021

1.1 Yn ein *Rhagolwg trethi Cymreig Rhagfyr 2020* (*WTO*) gwnaethom gyflwyno rhagolygon treth pum mlynedd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Roedd yn cwmpasu cyfraddau Cymru o dreth incwm, treth trafodion tir (LTT) a threth gwarediadau tirlenwi (LDT), yn ogystal â threthi cyfatebol Llywodraeth y DU sydd yn ofynnol i gyfrifo addasiadau i'r grant bloc.[1]

1.2 Roedd y rhagolygon hynny'n seiliedig ar ein rhagolygon ar gyfer economi'r DU a'n rhagolygon cyllidol ym mis Tachwedd 2020, ynghyd â data rhwymedigaethau a derbyniadau newydd a gyhoeddwyd ers hynny.[2]Gwnaethom gyhoeddi rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer y trethi a ddatganolwyd i Lywodraeth Cymru yn ein *Rhagolygon treth a gwariant ym mis Mawrth 2021* ochr yn ochr â Chyllideb Llywodraeth y DU. Cyn ei Chyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2021-22 ar 22 Mehefin, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ddiweddaru ein rhagolygon ar gyfer LTT a LDT i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Maent yn dal i gael eu hategu gan benderfynyddion o'n rhagolygon economi a'n rhagolygon cyllidol ar gyfer mis Mawrth 2021.[3]

1.3 Byddwn yn cyhoeddi rhagolygon newydd ar gyfer Treth Cymru yn seiliedig ar ragolygon economi a chyllidol diweddaraf ledled y DU yn ein dogfen *Rhagolygon treth a gwariant datganoledig*, ochr yn ochr â'n *Rhagolygon economaidd a chyllidol* a fydd yn cyd-fynd â Chyllideb nesaf Llywodraeth y DU.

Treth trafodion tir

Datblygiadau diweddar

1.4 Mae Siart 1.1 yn dangos datblygiadau diweddar mewn derbyniadau LTT ac yn eu cymharu â'n rhagolwg ym mis Mawrth ar gyfer derbyniadau yn 2020-21. Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

[1] Nodir y fethodoleg ar gyfer addasu'r grant bloc yn *Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*, Rhagfyr 2016. Nid oes gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r penderfyniadau gwariant hyn na negodiadau grant bloc, ond mae'r setliadau gwariant yn defnyddio ein rhagolygon treth.
[2] Gweler ein *Rhagolwg economaidd a chyllidol* ar gyfer mis Tachwedd 2020.
[3] Cynhyrchodd dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru ragolygon wedi'u diweddaru ar gyfer LTT a LDT ar 26 Mai 2021. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol graffu ar a therfynu'r rhagolygon hyn ar 7 Mehefin.

- Y **pandemig coronafeirws a chyfyngiadau cysylltiedig ar y farchnad eiddo wedi'u pwyso ar dderbyniadau yn gynnar yn 2020-21**, ond fe wnaethon nhw godi'n gryf o fis Medi ymlaen i orffen y flwyddyn i lawr dim ond £18 miliwn (8 y cant) ar 2019-20.[4]

- Roedd derbyniadau LTT yn 2020-21 **yn uwch nag ein rhagolwg ym mis Mawrth o £22 miliwn (11 y cant)**. Roedd data alldro ar gael hyd at fis Ionawr pan gynhyrchwyd y rhagolwg hwnnw gennym, gyda derbyniadau mis Chwefror ac yn enwedig mis Mawrth yn sylweddol gryfach na'r disgwyl.

- Cafodd y momentwm hwn ei gario ymlaen, gyda **derbyniadau ym mis Ebrill 2021 yn fwy na dwbl eu lefel ym mhob un o'r ddwy flynedd flaenorol.** Yn wir, roedd derbyniadau LTT masnachol ym mis Ebrill yn cyfateb i 36 y cant o'n rhagolwg ym mis Mawrth ar gyfer 2021-22 yn gyffredinol.

Siart 1.1: Alldro diweddar ar gyfer treth trafodion tir



Sylwer: Nid yw derbyniadau misol 2019-20 a ddangosir uchod yn cynnwys trosglwyddo rhwydwaith rheilffyrdd Core Valley Lines (CVL) i berchnogaeth gyhoeddus. Mae'r ACC yn cofnodi hyn fel trafodiad annodweddiadol o fawr, sy'n ychwanegu £28 miliwn at gyfanswm derbyniadau LTT yn 2019-20. Nid yw £2 filiwn ychwanegol o dderbyniadau o drafodion â manylion cyfyngedig wedi'u cynnwys ychwaith.

1.5 Mae ein rhagolwg ar gyfer LTT yn dechrau o'n rhagolygon ar gyfer y farchnad eiddo ledled y DU, gan ein bod yn tybio, yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, fod prisiau a thrafodion eiddo Cymru yn symud yn unol â phrisiau a thrafodion eiddo y DU gyfan. Mewn rhai rhagolygon blaenorol rydym wedi cynnwys cynnydd yn y rhagolygon prisiau tai sy'n sail i'n rhagolygon LTT preswyl, i adlewyrchu mwy o fomentwm ym marchnad dai Cymru sy'n amlwg yn y data a oedd ar gael ar y pryd. O ystyried tueddiadau yn y data diweddaraf, nid ydym wedi cynnwys unrhyw ragdybiaethau sy'n benodol i Gymru ar ben ein rhagolwg prisiau tai ar gyfer y DU (fel yn ein rhagolwg ym mis Mawrth).

[4] Nid yw hyn yn cynnwys trosglwyddo rhwydwaith rheilffyrdd Core Valley Lines (CVL) i berchnogaeth gyhoeddus. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn cofnodi hyn fel trafodiad annodweddiadol o fawr, sy'n ychwanegu £28 miliwn at dderbyniadau LTT yn 2019-20.

Rhagolygon diweddaraf

1.6 Dengys Tabl 1.1 ein rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer LTT a newidiadau ers mis Mawrth. Mae'n dangos bod derbyniadau cyffredinol wedi cynyddu £15 miliwn (6 y cant) ar gyfartaledd ym mhob blwyddyn, gan adlewyrchu'r man cychwyn uwch ar gyfer y rhagolwg oherwydd yr alldro cryf yn y misoedd diwethaf. Esbonnir y cyfraniadau i'r newidiadau hyn o bob cydran o LTT isod.

Tabl 1.1: Rhagolygon treth trafodion tir – diweddariad Mehefin 2021

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Cyfanswm LTT						
Rhagolwg mis Mawrth	190	260	272	285	310	338
Diweddariad mis Mehefin	212	280	286	295	322	351
Newid	**21**	**20**	**14**	**11**	**12**	**13**
Preswyl (ac eithrio eiddo ychwanegol)						
Rhagolwg mis Mawrth	83	131	133	141	158	177
Diweddariad mis Mehefin	89	127	140	143	160	180
Newid	**6**	**-4**	**6**	**2**	**3**	**3**
Eiddo ychwanegol						
Rhagolwg mis Mawrth	59	77	84	86	90	95
Diweddariad mis Mehefin	66	81	82	83	88	93
Newid	**6**	**4**	**-2**	**-2**	**-2**	**-2**
Masnachol						
Rhagolwg mis Mawrth	49	52	55	58	62	66
Diweddariad mis Mehefin	58	72	65	69	74	78
Newid	**9**	**19**	**10**	**11**	**11**	**12**

Rhagolygon LTT preswyl

1.7 Dengys Tablau 1.2 ac 1.3 ein rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer prif gyfraddau a chyfraddau ychwanegol LTT preswyl yn y drefn honno, ac yn eu cymharu â'n rhagolygon ym mis Mawrth. Rydym wedi diwygio derbyniadau o'r prif gyfraddau yn 2021-22, ond rydym wedi eu diwygio wedi hynny. Mewn cyferbyniad, mae derbyniadau cyfraddau ychwanegol wedi'u diwygio i fyny ychydig yn 2021-22, ond wedi'u diwygio i lawr wedi hynny.

1.8 Mae'n ymddangos bod y cryfder annisgwyl yn nerbyniadau prif gyfraddau 2020-21 wedi bod o ganlyniad i gyfansoddiad sy'n annisgwyl uchel o dreth o drafodion. Rydym yn tybio y bydd yr hwb cyfansoddiadol hwn yn lleihau'n raddol dros amser. Mae hyn yn codi ein rhagolwg ar gyfer 2021-22 o £11 miliwn, gyda'r effaith yn gostwng i £5 miliwn yn y tymor canolig. Rydym wedi tybio bod y gwahaniaeth alldro negyddol bach ar gyfer y cyfraddau ychwanegol yn 2020-21 yn ymwneud â gwyliau LTT a'i estyniad, felly mae ei effaith ar flynyddoedd i ddod wedi'i chyfyngu i 2021-22.

1.9 Mae'r newidiadau modelu cymharol fach sy'n effeithio ar y ddau ragolwg yn ymwneud â thynnu addasiadau i ddata alldro 2019-20 a 2020-21 a gafodd sylw yn ein rhagolwg ym mis Mawrth.

Estyniad gwyliau LTT

1.10 Ers i ni gyhoeddi ein rhagolwg ym mis Mawrth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y gwyliau LTT yn cael eu hymestyn (o ddyddiad gorffen o 31 Mawrth i 30 Mehefin).Mewn perthynas â'r rhagolwg hwnnw, ni fydd trafodion preswyl prif gyfraddau rhwng £180,000 a £250,000 a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin yn ddarostyngedig i LTT, tra bydd trafodion dros £250,000 yn talu £2,450 yn llai o dreth. Disgwylir i tua 7,300 o drafodion elwa, gyda gostyngiad cyfartalog o £1,700 mewn atebolrwydd LTT. Mae hyn yn rhoi cyfanswm cost o £12 miliwn, sy'n cynnwys gostyngiad o £14 miliwn mewn derbyniadau prif gyfraddau a chynnydd o £2 filiwn mewn cyfraddau ychwanegol.

Tabl 1.2: Rhagolwg LTT y prif gyfraddau preswyl

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Rhagolwg mis Mawrth	83	131	133	141	158	177
Diweddariad mis Mehefin	89	127	140	143	160	180
Newid		**-4**	**6**	**2**	**3**	**3**
o *hynny*:						
Newidiadau modelu		-1	-2	-2	-2	-2
Data alldro		11	8	4	5	5
Estyniad gwyliau LTT		-14	0	0	0	0

Tabl 1.3: Rhagolwg LTT cyfraddau ychwanegol preswyl

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Rhagolwg mis Mawrth	59	77	84	86	90	95
Diweddariad mis Mehefin	66	81	82	83	88	93
Newid		**4**	**-2**	**-2**	**-2**	**-2**
o *hynny*:						
Newidiadau modelu		4	-2	-2	-2	-2
Data alldro		-2	0	0	0	0
Estyniad gwyliau LTT		2	0	0	0	0

Rhagolwg LTT masnachol

1.11 Mae Tabl 1.4 yn nodi ein rhagolwg ar gyfer LTT masnachol a sut y mae wedi newid o'i gymharu â'n rhagolwg ym mis Mawrth. Yn gyffredinol, rydym wedi diwygio derbyniadau i fyny £13 miliwn (22 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn adlewyrchu dau ffactor:

- Data alldro sy'n annisgwyl o gryfach **ar ddiwedd 2020-21**. Rydym wedi tybio y bydd y gyfran uwch o drafodion gwerth uwch yn 2020-21 o'i chymharu â blwyddyn sylfaen

2019-20 a ddefnyddir yn y model a ragwelir yn parhau, gan godi derbyniadau ym mhob blwyddyn.

- Derbyniadau cryf iawn **ym mis Ebrill 2021**. Daeth y rhain i mewn ar £19 miliwn mewn un mis, sy'n cyfateb i 36 y cant o'r rhagolwg blwyddyn lawn ar gyfer derbyniadau masnachol yn 2021-22 a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth. Cynhyrchodd trafodion dros £2 filiwn tua £17 miliwn o'r derbyniadau hyn, swm uwch nag mewn unrhyw chwarter blaenorol ers cyflwyno LTT.Yr ydym wedi tybio y bydd y derbyniadau hyn ym mis Ebrill yn rhywbeth untro, felly yr ydym wedi codi ein rhagolwg ar gyfer 2021-22 £10 miliwn ond heb ei gario drwodd i flynyddoedd diweddarach.

Tabl 1.4: Rhagolwg LTT masnachol

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Rhagolwg mis Mawrth	49	52	55	58	62	66
Diweddariad mis Mehefin	58	72	65	69	74	78
Newid		**19**	**10**	**11**	**11**	**12**
o hynny:						
Aliniad alldro		10	10	11	12	12
Data yn ystod y flwyddyn		10	0	0	0	0

Treth gwarediadau tirlenwi

1.12 Mae Tabl 1.5 yn dangos ein rhagolwg LDT wedi'i ddiweddaru. Nid yw wedi newid fawr ddim ers mis Mawrth, gyda'r alldro ar gyfer 2020-21 yn dod i mewn ychydig yn uwch na'r disgwyl. Rydym wedi tybio bod hon yn effaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r pandemig nad yw'n gwthio drwodd i'r blynyddoedd i ddod.

Tabl 1.5: Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi – diweddariad Mehefin 2021

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Rhagolwg mis Mawrth	31	34	34	33	33	32
Diweddariad mis Mehefin	32	34	34	33	33	32
Newid	**1**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
o hynny:						
Data	1	0	0	0	0	0

Rhagolwg wedi'i ailddatgan: Cyfraddau Treth incwm Cymru yn ôl band treth

1.13 Isod rydym wedi cywiro gwallau ym mandiau incwm treth-wrth-dreth a chyfraddau Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon cyfwerth yn ôl tablau band a gyhoeddwyd yn ein rhagolwg *Treth a gwariant datganoledig* ym mis Mawrth 2021. Mae Tabl 1.6 yn cynnwys diwygiadau bach i'r holl ffigurau o 2019-20 ymlaen, tra bod yr holl ffigurau yn Nhabl 1.7 wedi'u diwygio. Mae hyn yn adlewyrchu cywiro gwall taenlen a nodwyd ar ôl i'r ddogfen gael ei chyhoeddi.

Tabl 1.6: Cyfraddau Treth incwm Cymru fesul band – wedi'u hailddatgan

	£ miliwn							
	Alldro a amcangyfrifir	Rhagolwg						
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Rhagolwg mis Mawrth o *hynny:*	2,010	2,027	2,093	2,113	2,233	2,315	2,495	2,643
Cyfradd sylfaenol	1,718	1,748	1,793	1,818	1,909	1,974	2,107	2,213
Cyfradd uwch	248	232	252	248	273	285	328	364
Cyfradd ychwanegol	44	47	48	47	52	56	61	67
	Y cant							
Cyfradd sylfaenol	85.5	86.2	85.6	86.0	85.5	85.3	84.4	83.7
Cyfradd uwch	12.3	11.5	12.0	11.7	12.2	12.3	13.1	13.8
Cyfradd ychwanegol	2.2	2.3	2.3	2.2	2.3	2.4	2.4	2.5

Sylwer: Mae celloedd tywyll yn cynrychioli amcangyfrifon tybiannol ar gyfer blynyddoedd pan nad yw datganoli trethi wedi digwydd.

Tabl 1.7: Cyfraddau Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon cyfwerth yn ôl band - wedi'u hailddatgan

	£ biliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail WRIT)	**57.8**	**59.0**	**59.8**	**60.5**	**64.4**	**66.7**	**71.2**	**75.0**
o hynny:								
Ardreth sylfaenol	39.3	40.7	41.0	41.8	44.2	45.7	48.3	50.4
Cyfradd uwch	11.4	11.0	11.5	11.5	12.4	12.9	14.3	15.4
Cyfradd ychwanegol	7.1	7.3	7.3	7.2	7.7	8.1	8.7	9.3
Ardrethi Cymru	**2.0**	**2.0**	**2.1**	**2.1**	**2.2**	**2.3**	**2.5**	**2.6**
o hynny:								
Ardreth sylfaenol	1.7	1.7	1.8	1.82	1.91	2.0	2.1	2.2
Cyfradd uwch	0.2	0.2	0.3	0.2	0.3	0.3	0.3	0.4
Cyfradd ychwanegol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.1	0.1	0.1	0.1
	Canran y newid ar flwyddyn ynghynt							
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail WRIT)		**2.2**	**1.3**	**1.1**	**6.4**	**3.6**	**6.8**	**5.3**
o hynny:								
Ardreth sylfaenol		3.6	0.7	1.9	5.9	3.3	5.6	4.4
Cyfradd uwch		-3.9	4.8	0.1	7.8	3.4	10.8	7.9
Cyfradd ychwanegol		4.1	-0.7	-1.3	7.3	5.5	6.6	6.6
Ardrethi Cymru		**0.9**	**3.3**	**1.0**	**5.7**	**3.7**	**7.8**	**5.9**
o hynny:								
Ardreth sylfaenol		1.8	2.6	1.4	5.0	3.4	6.7	5.0
Cyfradd uwch		-6.3	8.6	-1.6	9.9	4.6	15.0	10.9
Cyfradd ychwanegol		5.8	3.0	-2.2	9.9	7.5	9.2	9.6

Sylwer: Mae celloedd tywyll yn cynrychioli amcangyfrifon tybiannol ar gyfer blynyddoedd pan nad yw datganoli trethi wedi digwydd.